# CYFARFOD PENDERFYNIADAU AELOD Y BWRDD GWEITHREDOL DROS YR AMGYLCHEDD

**DYDD** Iau, 12 Gorffennaf 2018

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd:** H.A.L. Evans (Aelod o'r Bwrdd Gweithredol).

**Roedd y swyddogion canlynol yn bresennol:**
S. Pilliner, Pennaeth Priffyrdd a Thrafnidiaeth
K. Thomas, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

Ystafell Cyfarfod Adfywio, Neuadd y Sir, Caerfyrddin - 10.00 - 10.10 am

## 1. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau personol.

## 2. SHOPMOBILITY CAERFYRDDIN

Ystyriodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol adroddiad ynghylch cefnogi Shopmobility Caerfyrddin drwy grant pellach o £14,650 am gyfnod o 12 mis gan gychwyn ym mis Medi 2018. Esboniwyd bod Shopmobility yn un o brif flaenoriaethau Strategaeth Barcio Integredig y Cyngor a'i fod wedi cael ei gefnogi gan y Cyngor ers 2011. Roedd y trefniadau cyllido presennol i fod i ddod i ben eleni. Nodwyd er bod y Grŵp yn cael incwm drwy godi tâl a thrwy gynnal gweithgareddau i godi arian, ei fod yn dibynnu'n bennaf ar gymorth ariannol gan y Cyngor.

**PENDERFYNWYD rhoi grant pellach o £14,650 i gynorthwyo Shopmobility Caerfyrddin am gyfnod o 12 mis arall, gan gychwyn ym mis Medi 2018, yn amodol ar yr amodau yn yr adroddiad.**

## 3. SHOPMOBILITY LLANELLI

Ystyriodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol adroddiad ynghylch cefnogi Shopmobility Llanelli drwy grant pellach o £14,650 ar gyfer blwyddyn ariannol 2018/19 gan gychwyn ar 31 Gorffennaf 2018. Pwysleisiwyd bod Shopmobility yn un o brif flaenoriaethau Strategaeth Barcio Integredig y Cyngor a'i fod wedi cael ei gefnogi gan y Cyngor ers 2011. Roedd y trefniadau cyllido presennol i fod i ddod i ben eleni. Nodwyd er bod y Grŵp yn cael incwm drwy godi tâl a thrwy gynnal gweithgareddau i godi arian, ei fod yn dibynnu'n bennaf ar gymorth ariannol gan y Cyngor.

**PENDERFYNWYD cynorthwyo Shopmobility Llanelli drwy grant pellach o £14,650 ar gyfer blwyddyn ariannol 2018/19, gan gychwyn ar 31 Gorffennaf 2018.**

## 4. CYNLLUN I ARAFU TRAFFIG - GARREGLWYD, PEN-BRE

Ystyriodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol adroddiad ynghylch cynigion gan yr Awdurdod yn sgil cais gan Persimmon Homes am gyflwyno System Blaenoriaeth Ildio ger Garreglwyd, Pen-bre oherwydd bod y briffordd gyhoeddus bresennol yn

gul o brif ffordd yr A484 i Ystad Dai Garreglwyd ac nad yw'n ddigon llydan i ddarparu ar gyfer troedffordd i gerddwyr a chynnal llif dwy ffordd i gerbydau. Byddai'r cynnig, petai'n cael ei fabwysiadu, yn hwyluso llif y traffig yn ddiogel drwy'r rhan gul o'r ffordd gan roi blaenoriaeth i gerbydau sy'n teithio tua'r gogledd er mwyn diogelu'r Rhwydwaith Priffyrdd Strategol, a byddai cost hynny yn cael ei thalu gan y datblygwr o dan Gytundeb Adran 278.

Dywedwyd yn sgil cyhoeddi'r cynnig, nad oedd unrhyw wrthwynebiadau wedi dod i law oddi wrth yr ymgyngoreion statudol. Fodd bynnag, roedd 10 gwrthwynebiad ysgrifenedig wedi dod i law, fel y nodwyd yn yr adroddiad ynghyd ag ymatebion y swyddog.

**PENDERFYNWYD nodi'r gwrthwynebiadau a oedd wedi dod i law ynghylch y cynnig i gyflwyno System Blaenoriaeth Ildio ger Garreglwyd, Pen-bre, ond bod y Gorchymyn yn cael ei gyflwyno er budd diogelwch ffyrdd cyffredinol i hwyluso darparu troedffordd ddiogel o brif ffordd yr A484 i ystad Garreglwyd a rheoli llif y traffig yn ddiogel drwy'r rhan gul o'r ffordd.**

**5. LLOFNODI FEL COFNOD CYWIR PENDERFYNIADAU'R CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 7FED MEHEFIN, 2018**

**PENDERFYNWYD llofnodi'r cofnod penderfyniadau Cyfarfod yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros yr Amgylchedd a gynhaliwyd ar 7 Mehefin 2018 gan ei fod yn gofnod cywir.**

**AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL** **DYDDIAD**